# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 20 Mawrth 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(54)

**Ethol Dirprwy Lywydd dros dro**
Cafodd Rhodri Glyn Thomas ei ethol yn Ddirprwy Lywydd dros dro.
**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog**

Dechreuodd yr eitem am 13:30.

Gofynnwyd cwesitynau 2-14. Tynnwyd cwestiwn 1 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

Dechreuodd yr eitem am 14:28.

**3. Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy: Rhaglen dileu Twbercwlosis mewn Gwartheg yng Nghymru**

Dechreuodd yr eitem am 14:34.

**4. Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Awdurdodaeth Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl) (Cymru) 2012**

Dechreuodd yr eitem am 15:27.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**5. Dadl: Adroddiad Blynyddol 2010-2011 Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (ESTYN)**

Dechreuodd yr eitem am 15:34.

**NDM4943 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

Nodi adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2010-11.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Nodi ymhellach fod yr adroddiad yn dweud bod 'lefel isel y medrau llythrennedd yn dal i beri problemau yng Nghymru' ac nad yw 'gwella llythrennedd y disgyblion yn cael rhan ddigon canolog yn y gwaith o gynllunio cwricwlwm yr ysgol.'

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Gresynu wrth ganfyddiadau yn yr adroddiad blynyddol sy'n awgrymu bod gan 4 disgybl o bob 10 sy'n mynd i ysgol uwchradd oed darllen sydd o leiaf 6 mis o dan eu gwir oedran.

**Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Mynegi pryder difrifol bod pump y cant o'r ysgolion a arolygwyd wedi achosi 'pryder difrifol' i Estyn, a bod angen ymweliadau dilynol ar 25 y cant.

**Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Gresynu wrth ganfyddiadau gan Estyn sy'n awgrymu nad yw 'gwella llythrennedd y disgyblion yn cael rhan ddigon canolog yn y gwaith o gynllunio cwricwlwm yr ysgol' mewn nifer o ysgolion.

**Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Gresynu wrth ganfyddiadau yn yr adroddiad blynyddol sy'n awgrymu bod safonau dysgu'n amrywio'n sylweddol ledled Cymru.

**Derbyniwyd gwelliant 5 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau a oedd yn weddill o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Gwelliant 6 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Gresynu nad oes yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu ymateb ysgrifenedig i adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 13 | 39 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Galw ar Lywodraeth Cymru i greu gofyniad cyfreithiol iddi ymateb yn ffurfiol, yn ysgrifenedig, i adroddiadau blynyddol Estyn yn y dyfodol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 13 | 39 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 7.**

**Gwelliant 8 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Croesawu cyflwyno'r Grant Amddifadedd Disgyblion yng Nghymru a'r potensial i wella cyflawniad i ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 23 | 0 | 57 |

**Derbyniwyd gwelliant 8.**

**Gwelliant 9 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Gresynu mai ychydig iawn fydd bandio ysgolion yn ei wneud  i fynd i'r afael â datganiad y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant sef 'Hyd yn oed lle mae ysgol wedi cael ei barnu'n 'dda' ar y cyfan, mae ansawdd yr addysgu neu'r dysgu'n aml yn wael yn rhai o'r gwersi neu'r adrannau unigol'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 9.**

**Gwelliant 10 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Gresynu wrth y dystiolaeth yn yr Adroddiad sy'n awgrymu nad oes nifer o awdurdodau lleol yn ymwybodol o berfformiad eu hysgolion a bod rhai ysgolion 'wedi cael tanberfformio dros gyfnod hir'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 10:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 57 | 0 | 0 | 57 |

**Derbyniwyd gwelliant 10.**

**Gwelliant 11 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Gresynu wrth y ffaith bod yr amserlenni ar gyfer gwella addysg a luniwyd gan Lywodraeth Cymru yn anghyson.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 11:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 39 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 11.**

**Gwelliant 12 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno targedau dros dro i sicrhau ei bod yn cyrraedd ei tharged cyffredinol sef bod system ysgolion Cymru ymysg 20 uchaf y byd erbyn 2015.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 12:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 39 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 12.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4943 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

Nodi adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2010-11.

Nodi ymhellach fod yr adroddiad yn dweud bod 'lefel isel y medrau llythrennedd yn dal i beri problemau yng Nghymru' ac nad yw 'gwella llythrennedd y disgyblion yn cael rhan ddigon canolog yn y gwaith o gynllunio cwricwlwm yr ysgol.'

Gresynu wrth ganfyddiadau yn yr adroddiad blynyddol sy'n awgrymu bod gan 4 disgybl o bob 10 sy'n mynd i ysgol uwchradd oed darllen sydd o leiaf 6 mis o dan eu gwir oedran.

Mynegi pryder difrifol bod pump y cant o'r ysgolion a arolygwyd wedi achosi 'pryder difrifol' i Estyn, a bod angen ymweliadau dilynol ar 25 y cant.

Gresynu wrth ganfyddiadau gan Estyn sy'n awgrymu nad yw 'gwella llythrennedd y disgyblion yn cael rhan ddigon canolog yn y gwaith o gynllunio cwricwlwm yr ysgol' mewn nifer o ysgolion.

Gresynu wrth ganfyddiadau yn yr adroddiad blynyddol sy'n awgrymu bod safonau dysgu'n amrywio'n sylweddol ledled Cymru.

Croesawu cyflwyno'r Grant Amddifadedd Disgyblion yng Nghymru a'r potensial i wella cyflawniad i ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.

Gresynu wrth y dystiolaeth yn yr Adroddiad sy'n awgrymu nad oes nifer o awdurdodau lleol yn ymwybodol o berfformiad eu hysgolion a bod rhai ysgolion 'wedi cael tanberfformio dros gyfnod hir'.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 57 | 0 | 0 | 57 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**6. Dadl: Agenda strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesedd – "Gwyddoniaeth i Gymru"**

Dechreuodd yr eitem am 16.27

**NDM4942 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

Nodi'r agenda strategol newydd ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesedd yng Nghymru – Gwyddoniaeth i Gymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Gresynu mai dim ond 3.3 y cant oedd cyfran Cymru o gyllid cyngor ymchwil y DU yn 2009/10.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 2 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Gresynu wrth y 'lleihad yn nifer y disgyblion sy'n astudio pynciau STEM a'r ffaith nad yw nifer y disgyblion sy'n astudio'r pynciau hyn ar gyfer Safon Uwch wedi cynyddu yn unol â nifer y disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer arholiadau Safon Uwch yn gyffredinol'.

**Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 3 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglen i annog pobl dalentog iawn i fynd i ddysgu pynciau STEM.

**Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Galw ar Lywodraeth Cymru i annog rhagor o fusnesau yng Nghymru i fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu mentrau busnes ac i gael gafael ar gyllid Rhaglen Fframwaith yr UE i wneud hyn.

**Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Galw ar Lywodraeth Cymru i gynhyrchu cynllun cyflenwi yn amlinellu pwyntiau gweithredu allweddol ac yn pennu targedau diffiniadwy ar gyfer gwella gwyddoniaeth ac arloesedd.

**Derbyniwyd gwelliant 5 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 6 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Galw ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau i egluro'r sefyllfa o ran gwyddoniaeth fel dangosydd pwnc craidd mewn ysgolion.

**Derbyniwyd gwelliant 6 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4942 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

Nodi'r agenda strategol newydd ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesedd yng Nghymru - Gwyddoniaeth i Gymru.

Gresynu mai dim ond 3.3 y cant oedd cyfran Cymru o gyllid cyngor ymchwil y DU yn 2009/10.

Gresynu wrth y 'lleihad yn nifer y disgyblion sy'n astudio pynciau STEM a'r ffaith nad yw nifer y disgyblion sy'n astudio'r pynciau hyn ar gyfer Safon Uwch wedi cynyddu yn unol â nifer y disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer arholiadau Safon Uwch yn gyffredinol'.

Galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglen i annog pobl dalentog iawn i fynd i ddysgu pynciau STEM.

Galw ar Lywodraeth Cymru i annog rhagor o fusnesau yng Nghymru i fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu mentrau busnes ac i gael gafael ar gyllid Rhaglen Fframwaith yr UE i wneud hyn.

Galw ar Lywodraeth Cymru i gynhyrchu cynllun cyflenwi yn amlinellu pwyntiau gweithredu allweddol ac yn pennu targedau diffiniadwy ar gyfer gwella gwyddoniaeth ac arloesedd.

Galw ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau i egluro'r sefyllfa o ran gwyddoniaeth fel dangosydd pwnc craidd mewn ysgolion.

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio yn unol â Rheol Sefydlog 12.36**

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd yr eitem am 17.29

Daeth y cyfarfod i ben am 17.35

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, ddydd Mercher, 21 Mawrth 2012**